Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanfachraeth
# Llanfachraeth
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 4UY

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Llanfachraeth yng nghanol pentref Llanfachraeth yng ngogledd dwyreiniol Ynys Môn.  Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas er bod tua chwarter y disgyblion yn teithio i'r ysgol o du allan i ddalgylch naturiol yr ysgol.  Cynhelir yr ysgol gan awdurdod addysg Ynys Môn.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed.  Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair.  Yn ystod yr arolygiad, roedd 49 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys saith plentyn sy'n mynychu'n rhan amser.  Fe'u haddysgir gan ddwy athrawes amser llawn ac un athro rhan amser.  Addysgir yn bennaf yn y Gymraeg.

Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd ac mae cyrhaeddiad disgyblion yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig yn yr ysgol.  Mae 18% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl.  Mae hyn yn is na'r canrannau sirol a Chymru.  Mae 8% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol sy'n sylweddol is na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%).

Mae'r pennaeth mewn gofal yn ei swydd ers Medi 2012.  Mae hi â chyfrifoldeb dosbarth am bedwar diwrnod.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanfachraeth yn 2012-2013 yn £5,060.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £10,188 a'r lleiafswm yw £2,842.  Mae Ysgol Llanfachraeth yn safle 13eg allan o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Llanfachraeth yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda;
- bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais, ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu;
- profiadau dysgu cyfoethog ar gael i'r disgyblion, ansawdd rhan fwyaf yr addysgu yn dda a staff ategol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol; a bod
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth â gweledigaeth glir sydd wedi ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr;
- holl aelodau'r staff yn glir ynghylch eu rolau, yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio fel tîm;
- yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun a'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg;
- cynlluniau clir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar godi safonau; a bod
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A2 Sicrhau bod mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau prosesu data i gefnogi eu gweithgareddau dysgu ar draws yr ystod pynciau

A3 Sicrhau gweithgareddau dysgu fydd yn ymestyn disgyblion o bob gallu yn llawn

A4 Cryfhau trefniadau hunanarfarnu i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar arfarnu effaith gweithredu blaenoriaethau'r ysgol ar ddeilliannau disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion Ysgol Llanfachraeth ar fynediad i'r ysgol yn dangos fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da mewn gwersi a thros gyfnod. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da ymhob un o'r meysydd dysgu. Maent yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau'n hyderus ar draws ystod o bynciau. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae'r rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o iaith, llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa briodol ac mae'r rhan fwyaf yn eu defnyddio'n glir a chywir wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron bob un o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron bob un yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae bron pob un o ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn ystyrlon a chyda rhugldер a mynegiant clir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda rhuglder, mynegiant a dealltwriaeth dda. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i gyflwyno mewn modd diddorol. Maent yn defnyddio eu medrau trawsieithu'n hyderus wrth wneud gwaith ymchwil.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r holl ddisgyblion yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Mae rhan fwyaf disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm i bwrpasau gwahanol ac ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae gwaith y rhan fwyaf ohonynt yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y ddwy iaith.

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 â gofal oherwydd bod y niferoedd bychain o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion saith oed a oedd yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ym mhob maes dysgu yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd canran y disgyblion saith oed a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) hefyd yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Roedd perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth ar gael am dueddiadau dros amser.

Yn 2012, roedd canlyniadau'r disgyblion 11 oed ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn gyson uwch na'r ffigurau cenedlaethol ar gyfer pob pwnc a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf roedd y canlyniadau yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru

Roedd canran y disgyblion a oedd wedi cyrraedd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5), hefyd yn uwch na'r teulu, a chyfartaleddau Cymru, yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn gosod yr ysgol yn yr 50% uchaf yn 2012. Roedd yn is mewn Saesneg ac ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg. Dros gyfnod o bedair blynedd, heblaw am Saesneg yn 2012 roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch yn gyson uwch na chanrannau'r teulu o ysgolion a Chymru. Roedd y canlyniadau bron yn ddieithriad yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ac yn aml ymhlith y 25% uchaf.

Ni fu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a bechgyn nac ym mherfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio ysgol am ddim dros y blynyddoedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf disgyblion Ysgol Llanfachraeth yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae ganddynt agweddau positif tuag at fwyta'n iach ac maent yn mwynhau gweithgarwch corfforol amrywiol. Maent yn ymfalchïo ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig, yn awyddus i ddysgu ac yn dangos dyfalbarhad yn eu gwaith. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain.

Mae safonau ymddygiad disgyblion ar bob adeg yn uchel. Maent yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio ac yn gwrtais a pharchus at ei gilydd a thuag at y staff ac ymwelwyr.

Mae canran presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson uchel o'i gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau di-dâl ac yn y 25% uchaf mewn tair o'r blynyddoedd hynny. Mae prydlondeb yn dda.

Mae disgyblion yn lleisio barn a chymryd rhan ym mhenderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol yn rheolaidd drwy waith y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu cynaliadwyedd a bwyta'n iach o fewn yr ysgol yn ogystal â chodi arian er budd elusennau a ddewiswyd ganddynt.

Drwy gyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'u hardal a'r gymuned. Enghraifft dda o hyn yw eu balchder yn eu 'Cornel Fach o Fôn'.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Mae profiadau dysgu bywiog ac ysgogol y Cyfnod Sylfaen yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol. Mae profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu yn llwyddiannus ar y profiadau blaenorol ar gyfer rhan fwyaf y disgyblion. Er hyn, nid yw'r cynllunio bob amser yn ymateb i'r ystod eang o allu yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu a rhifedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda ac yn sicrhau fod cydlyniad ym mhrofiad y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion i gywain a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Er hyn, nid oes cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i gymhwyso eu medrau prosesu data ar draws y pynciau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr i gyfoethogi eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymreig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a gwarchod yr amgylchfyd yn effeithiol. Mae dealltwriaeth y disgyblion o'r byd ehangach yn cael ei ddatblygu'n raddol trwy astudio gwledydd tramor, megis y Gambia.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas ofalgar rhwng yr oedolion a'r disgyblion yn creu ethos gweithgar ac yn cynnig cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion. Mae gan yr athrawon a'r staff cymorth wybodaeth bynciol dda. Maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae pob oedolyn yn darparu model ieithyddol da.

Yn y rhan fwyaf o wersi mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau diddorol a heriol sy'n ymateb yn llwyddiannus i'r ystod eang o allu o fewn y dosbarthiadau. Maent yn gwneud defnydd da o amrywiaeth o ddulliau addysgu a hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau. Yr yr ychydig wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r gweithgareddau yn ymestyn disgyblion o bob gallu yn llawn.

Mae asesu ar gyfer dysgu wedi dechrau datblygu ond nid yw'r broses wedi llwyr ymsefydlu eto drwy'r ysgol. Mae trefniadau asesu yn y Cyfnod Sylfaen yn gadarn iawn a defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i fwydo'r cynlluniau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n gyson gan gynnig sylwadau adeiladol perthnasol. Parhau i ddatblygu mae rôl disgyblion wrth asesu eu gwaith eu hunain.

Mae system tracio cynnydd effeithiol yn weithredol ar draws yr ysgol. Gwneir defnydd da o asesiadau safonol i dargedu ymyrraeth briodol i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau fod asesiadau athrawon yn gadarn.

Mae adroddiadau blynyddol disgyblion yn glir a defnyddiol a chânt eu gwerthfawrogi gan rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar ac mae'r holl staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth unigol da ar faterion addysgol cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae'n cydweithio'n agos gydag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael ar eu cyfer. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles yn effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r broses ar gyfer adnabod a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn gweithredu yn gynnar iawn i ddarparu cefnogaeth ac mae trefniadau llwyddiannus yn bodoli i gefnogi'r holl ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar, hapus a chynhwysol. Nodwedd gref yw'r ymdeimlad cartrefol a'r awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Datblygir agweddau goddefgarwch yn dda gan sicrhau fod pob un o'r disgyblion yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.

Mae'r adeilad yn cynnig digon o le ar gyfer nifer y disgyblion er nad yw pob ardal yn hygyrch i rai gydag anableddau corfforol. Mae lefel glanweithdra yn uchel. Mae'r ysgol ar safle braf gydag adnoddau allanol da. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael ac mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus yn creu awyrgylch dysgu deniadol. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer cynnal safonau, gwarchod y Gymraeg a sicrhau lles y disgyblion. Llwydda i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion. Mae wedi creu tîm effeithiol gyda chyfeiriad a phwrpas i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chaiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o berfformiad y disgyblion o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth am fywyd a gwaith yr ysgol ac yn eu trafod yn ofalus. Drwy eu diddordeb am agweddau o waith yr ysgol, mae aelodau unigol yn datblygu eu gallu i'w herio yn fwy effeithiol.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn dylanwadu'n briodol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus ac fe roddir sylw da i bwysigrwydd llythrennedd a datblygu medrau meddwl.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau. Mae'r staff cyfan yn ymwybodol o bwrpas ac effaith hunan arfarnu effeithiol, ac maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddylanwadu'n addas ar gynnwys yr adroddiad. Caiff rhieni a'r disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gyfrannu at y broses.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno a chlir ac yn cynnig darlun cywir o'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio sawl ffynhonnell o dystiolaeth i gefnogi barnau'r adroddiad gan gynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad, arsylwadau gwersi a thystiolaeth yn deillio o archwilio gwaith disgyblion. Mae'r adroddiad yn cynnig barn glir ar safonau a chyflawniad disgyblion. Er hyn, mae'n tueddu i ddisgrifio yn hytrach nag arfarnu effaith gweithredu blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol ac yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'n cynnwys targedau mesuradwy a heriol a symiau penodol o gyllid sy'n gysylltiedig â'r bwriadau.

Mae'r ysgol yn datblygu yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'n cynnig cyfleoedd cyson i staff gydweithio'n bwrpasol oddi fewn i'r ysgol a gyda staff ysgolion cyfagos.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod dda o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r rhieni a'r gymuned. Mae'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni ac maent hwythau yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigeddau pobl leol i ehangu'r ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r mewnbwn celf a cherdd wythnosol sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol yr holl ddisgyblion. Mae llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau cymunedol yn rheolaidd.

Mae'r perthynas agos gyda'r cylch Ti a Fi, sy'n cyfarfod yn neuadd yr ysgol yn sicrhau bod plant yn llwyddo i ymgartrefu'n fuan yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol, yr awdurdod lleol ac ysgolion y dalgylch. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawon eraill yr ardal er mwyn cymedroli a safoni gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn rheoli’r adnoddau a ddyrennir i’r ysgol yn fedrus.  Lleolir athrawon a staff cefnogi yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o’u hamser, arbenigedd a phrofiad.  Rheoli’r cyflenwad da o adnoddau ar gyfer holl anghenion yr ysgol yn llwyddiannus ac fe wneir defnydd da ohonynt.  Mae’r buddsoddiad diweddar mewn TGCh wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Caiff y gwariant ei fonitro’n rheolaidd i sicrhau bod gan yr ysgol ystod eang a phwrpasol o adnoddau dysgu ac addysgu.  Ceir cydbwysedd a dealltwriaeth dda rhwng y corff llywodraethol a’r pennaeth wrth ddiffinio cyfrifoldebau ariannol.  Mae’r gwariant wedi’i gysylltu’n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.  Mae diffyg yng nghyllideb gyfredol yr ysgol ond mae cynlluniau priodol ar gyfer lleihau’r diffyg hyn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi’i threfnu’n dda, ac mae’r athrawon yn defnyddio’r cyfleoedd hyn yn effeithiol.  Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i’r staff.

O ystyried y deilliannau da sydd yn yr ysgol, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dylid ystyried y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol gyda gofal gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fechan iawn.

Roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol) mewn cyfuniad yn 2012 yn uwch na Cymru a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Roedd perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) neu uwch mewn medrau iaith a datblygiad personol a chymdeithasol yn uwch na chyfartaledd Cymru a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd canran y disgyblion gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru.

Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yn y pedwar pwnc wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn 2012. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd yn is mewn Saesneg. Dros gyfnod o bedair blynedd, heblaw am Saesneg yn 2012, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch yn gyson uwch na chanrannau'r teulu o ysgolion a Chymru.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl dros gyfnod o bedair mlynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi amrywio ond roedd ymhlith y 25% uchaf mewn dwy ohonynt.

Nid oes bwlch arwyddocaol yng nghyflawniad bechgyn a merched.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer bychan yr ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 10 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae pob disgybl yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio. Maent oll yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Maent i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bron pob un yn dweud bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae'r cyfan yn dweud bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwneud eu gwaith. Maent hefyd o'r farn fod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae llawer o'r farn fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith er nad yw lleiafrif yn cytuno bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Olwen Corben | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sharon Bagnall | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.